# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | **Prosiect Solar a Storio Ynni Maen Hir** |
| **Cyfeirnod y ffeil** | **EN010156** |
| **Statws** | **Drafft** |
| **Awdur** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio** |
| **Dyddiad** | **21 Mehefin 2024** |
| **Cyfarfod â** | **Lightsource bp** |
| **Lleoliad** | **Microsoft Teams** |
| **Amcanion y cyfarfod** | **Cyfarfod Diweddaru ar y Prosiect** |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

## Rhaglen brosiect wedi'i diweddaru

Rhannodd yr Ymgeisydd drosolwg lefel uchel o'i raglen, yn dangos ymgynghoriad statudol yn ystod Chwarter 3/4 2024 a bwriad i gyflwyno cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yn ystod Chwarter 3 2025. Bydd manylion ychwanegol am y llinell amser yn cael eu cynnwys mewn dogfen raglen lawn a gyflwynir i'r Arolygiaeth ac a gyhoeddir ar wefan yr Ymgeisydd, maes o law.

Esboniodd yr Ymgeisydd y disgwylir i ymgysylltiad anffurfiol ddechrau cyn hir, i baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad statudol, a bod y rhaglen yn cynnwys cyfle i gynnal ail ymgynghoriad wedi'i dargedu, os bydd angen. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu ceisio cyfraniad ychwanegol gan ymgyngoreion statudol, cyn mireinio rhaglen y prosiect ymhellach a chadarnhau dyddiad cyflwyno.

Cytunodd yr Ymgeisydd i ddiweddaru'r dyddiad cyflwyno ar gyfer gwefan yr Arolygiaeth, a'i fod yn bwriadu defnyddio'r gwasanaeth dogfennau drafft ar hyn o bryd, ond y byddai'r cwmpas a'r amseriad yn cael eu cadarnhau.

## Mynegi diddordeb ynglŷn â'r gwasanaeth cyn-ymgeisio

Esboniodd yr Ymgeisydd ei fod yn targedu'r haen gwasanaeth safonol ar hyn o bryd, sy'n briodol i'r prosiect, yn ei farn ef.

Gofynnodd yr Ymgeisydd am ychydig o gyngor ynglŷn â'r gwasanaeth cyn-ymgeisio newydd:

Dogfen rhaglen y prosiect

Darparodd yr Arolygiaeth ddolen i ganllawiau gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) ynglŷn â'r manylion sy'n ofynnol yn rhaglen y prosiect. Fe ddylai ymdrin â'r cam cyn-ymgeisio cyfan, gan gynnwys unrhyw beth sydd eisoes wedi digwydd, hyd at yr adeg gyflwyno. Cadarnhaodd fod angen i gysylltiadau â chyrff statudol gael eu cynnwys yn y rhaglen ac, er nad yw ymgynghoriad ffurfiol yn ofynnol, bod angen i'r rhaglen fod yn hyblyg i gefnogi eu hymgysylltiad. Mater i'r Ymgeisydd yw dewis p'un ai rhannu'r rhaglen â chyrff statudol o flaen llaw neu eu cyfeirio at y fersiwn gyhoeddedig, pan fydd ar gael. Holodd yr Ymgeisydd b'un a ddylai gynhyrchu fersiwn o'r ddogfen ar gyfer y cyhoedd i'w chyhoeddi. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y byddai'n rhoi mwy o gyngor ynglŷn â hyn ar ôl y cyfarfod.

<u>Carreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori (AoCM)</u>

Nododd yr Ymgeisydd y gallai gofynion paratoi ar gyfer y garreg filltir newydd hon effeithio ar lwybr critigol y prosiect. Cynghorodd yr Arolygiaeth mai mater i'r Ymgeisydd yw cynnig y dyddiad yn rhan o'i raglen, ar yr amod nad yw'n hwyrach na thri mis cyn y dyddiad cyflwyno, a rhannodd ddolen i ganllawiau perthnasol DLUHC. Nododd fod yr AoCM yn fersiwn fwy ffurfiol o'r hyn sydd wedi cael ei wneud fel arfer a'i bwriad yw lleihau risg trwy geisio ymatebion gan awdurdodau lleol yn gynharach. Mae hyn yn caniatáu i bryderon dderbyn sylw cyn yr ymateb ffurfiol yn ystod y cam Derbyn.

Cadarnhaodd yr Arolygiaeth hefyd, gan fod y prosiect eisoes wedi ceisio Barn Gwmpasu, y dechreuir codi ffi o fis Ebrill 2025, tra byddai'r haenau gwasanaeth newydd ar waith o fis Medi 2024. Mae'n disgwyl gallu cadarnhau prosiectau yn eu haenau unigol erbyn diwedd mis Awst 2024. Cynghorodd yr Ymgeisydd i fonitro'r dudalen we Cwestiynau Cyffredin sy'n gysylltiedig â'r prosbectws, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd wrth i gwestiynau ddod i law.

## Ymgynghoriad Statudol

Esboniodd yr Ymgeisydd, yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol, ei fod yn bwriadu cysylltu â chynrychiolwyr etholedig ar bob lefel i gynnig sesiynau briffio ynglŷn â'r prosiect, ei raglen a'r ymgynghoriad i ddod. Bydd cylchlythyr cymunedol dwyieithog yn dilyn ar gyfer oddeutu 4,000 o gyfeiriadau preswyl a busnes yn yr ardal ymgynghori, yn ogystal â gwefan y prosiect a rhestr e-bost ar gyfer diweddariadau. Nododd yr Ymgeisydd, gan fod twristiaeth yn rhan allweddol o'r economi leol, fod yr ymgysylltiad anffurfiol wedi'i amseru i geisio dal rhywfaint o'r tymor twristiaeth brig ac y bydd yn bresennol mewn digwyddiadau cymunedol lleol, gan gynnwys Sioe Sir Fôn.

Nododd yr Ymgeisydd hefyd ei fod eisoes wedi ymgynghori'n anffurfiol â Chyngor Sir Ynys Môn (IoACC) ynglŷn â'r Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC). Mae wedi diweddaru'r datganiad hwn i fynd i'r afael â sylwadau'r Cyngor a bydd yn ymgynghori'n ffurfiol ym mis Gorffennaf fel y gellir ei gyhoeddi ymhell cyn yr ymgynghoriad statudol.

Mae'r ymgynghoriad statudol wedi'i drefnu i bara chwe wythnos, dros hanner tymor yr Hydref i geisio dal y boblogaeth dwristiaid a chynyddu hygyrchedd, e.e., i deuluoedd sy'n gweithio a allai gymryd gwyliau ar yr adeg hon. Amlinellodd yr Ymgeisydd y broses y mae'n bwriadu ei dilyn, yn cynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein ac argaeledd dogfennau ymgynghori. Mae'n ceisio rhychwantu ardal leol eang gyda'i leoliadau adneuo a hysbysiadau a hysbysebion mewn sawl cyhoeddiad lleol, gan gynnwys cyhoeddiad iaith Gymraeg. Bydd y dogfennau ymgynghori canlynol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg:

- Llyfryn Gwybodaeth am y Prosiect
- Ffurflen adborth
- Crynodeb Annhechnegol o’r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol
- Byrddau digwyddiadau ymgynghori

Mae gwefan y prosiect ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bydd siaradwyr Cymraeg yn bresennol ym mhob digwyddiad ymgynghori.

Gofynnodd yr Ymgeisydd am unrhyw adborth ar ehangder a dyfnder gwybodaeth i ganiatáu i ymgyngoreion ffurfio barn gytbwys. Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai IoACC mewn sefyllfa well i gynghori ynglŷn â hyn oherwydd bu’n ymwneud yn fwy hyd yma a bydd ganddo wybodaeth am y gymuned leol. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i sicrhau bod y broses ymgysylltu anffurfiol yn cael ei chofnodi’n drwyadl, yn ogystal â’r cam statudol, a bod yr hysbysiad a46 yn cael ei gyflwyno cyn i’r ymgynghoriad statudol ddechrau.

Argymhellodd yr Arolygiaeth hefyd y dylai’r Ymgeisydd roi ystyriaeth gynnar i opsiynau lleoliad ar gyfer gwrandawiadau yn y dyfodol, o ystyried y diffyg lleoliadau addas ar gyfer prosiectau blaenorol. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod eisoes yn llunio rhestr fer o leoliadau. Cytunodd yr Arolygiaeth i anfon ei rhestr wirio gofynion lleoliad yn dilyn y cyfarfod.

## Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR)

Esboniodd yr Ymgeisydd sut mae’r dyluniad wedi esblygu ers iddo gael ei rannu’n flaenorol:

- Mae rhywfaint o’r tir a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer lleoli paneli solar o fewn Canol Maen Hir wedi cael ei ddileu ar ôl ymgysylltu ymhellach â thirfeddianwyr, ond fe’i cadwyd yn rhannol ar gyfer mynediad adeiladu ac ati. Mae ardal ychwanegol ar gyfer lleoli paneli solar i’r gogledd o Lannerch-y-medd wedi’i chynnwys bellach o fewn Canol Maen Hir (uwchben safle De Maen Hir).
- Mae’r coridor llwybr ceblau sy’n cysylltu’r lleiniau yn llydan ar hyn o bryd a chaiff ei fireinio wrth i’r cynllun symud ymlaen.
- Mae paramedrau uchder wedi cael eu diffinio ar gyfer y PEIR i lywio asesiad o’r Dirwedd ac Amwynder Gweledol.
- Mae lleoliadau posibl is-orsafoedd wedi cael eu mireinio o fersiynau blaenorol, gyda hyblygrwydd wedi’i ymgorffori. Ar hyn o bryd, mae’r holl opsiynau cydleoli ar gyfer y System Storio Ynni Batris (BESS) ac is-orsaf y prosiect wedi’u dangos ar yr uchder mwy (is-orsaf). Bydd y manylion yn cael eu mireinio ar gyfer cyflwyno. Mae’n bosibl na fydd angen is-orsafoedd llai, ond mae lleoedd wedi’u neilltuo i ganiatáu ar gyfer yr opsiwn hwnnw.
- Dangosir ardaloedd lliniaru penodol, ond nodir y bydd mesurau lliniaru ymgorfforedig o fewn yr ardaloedd eraill hefyd, fel ardaloedd gwrthbwyso oddi wrth dderbynyddion sensitif.

Gofynnodd yr Arolygiaeth am eglurhad ynglŷn â pherthynas yr ardal newydd ar gyfer lleoli paneli solar â Ffin Gwmpasu’r Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (EIA) ar adeg mabwysiadu Barn Gwmpasu’r Arolygiaeth ym mis Rhagfyr 2023. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod yr ardal hon wedi cael ei hychwanegu ar ôl Cwmpasu. Ond, o ystyried bod y tir wedi cael ei gynnwys yn yr Ardal Astudio Cwmpasu EIA ehangach ac nad oes unrhyw effeithiau na derbynyddion newydd, a hepgorwyd yn y Farn Gwmpasu, nid oes angen asesiad. Mae’r Ymgeisydd o’r farn nad yw’r newid yn golygu bod angen ailgwmpasu.

Mae’r Ymgeisydd wedi llunio nodyn technegol yn amlinellu ei safbwynt, sydd wedi cael ei ddarparu i’r Arolygiaeth.

**Nodyn ôl-gyfarfod:** Mae’r Farn Gwmpasu a fabwysiadwyd wedi’i seilio ar y wybodaeth a oedd ar gael yn yr Adroddiad Cwmpasu (dyddiedig mis Tachwedd 2023) ar yr adeg honno a mater i’r Ymgeisydd yw penderfynu p’un a oes angen gwneud unrhyw gais newydd am gwmpasu. Nodir safbwynt a rhesymeg yr Ymgeisydd nad yw hyn yn angenrheidiol yn yr achos hwn. Mae nodyn technegol yr Ymgeisydd yn esbonio yr ymgynghorir ag IoACC ynglŷn ag unrhyw oblygiadau i’r asesiadau, er enghraifft i benderfynu p’un a oes angen unrhyw olygfannau ychwanegol ar gyfer yr Asesiad o’r Effaith ar y Dirwedd a’r Effaith Weledol. Er mwyn dangos bod agweddau/ materion wedi derbyn sylw’n briodol, cynghorir yr Ymgeisydd y dylai’r Datganiad Amgylcheddol (ES) (a’r PEIR, lle y bo’n bosibl) gynnwys cyfiawnhad cryf o hyd a lled y gwaith casglu data sylfaenol a chwmpas yr asesiadau o’r effaith yn hyn o beth, er mwyn rhoi hyder bod yr effeithiau arwyddocaol tebygol wedi cael eu hasesu’n llawn.

## Is-orsaf y Grid Cenedlaethol

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi trafod y cysylltiad ag is-orsaf arfaethedig De Wylfa gyda thîm National Grid Electricity Transmission (NGET). Mae ymgysylltiad yn parhau ag NGET ynglŷn â’r mater hwn.

## Ymgysylltiad Parhaus ag Ymgyngoreion Statudol

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bu’n ymgysylltu ag IoACC (ynglŷn â meysydd cynllunio a thechnegol fel sŵn, ansawdd aer a phriffyrdd) ac ymgyngoreion statudol eraill yn rheolaidd i gytuno ar fethodoleg ac ati a rhoi diweddariadau ar y cynigion. Derbyniwyd adroddiad dylunio gan Gomisiwn Dylunio Cymru (DCfW) a bydd yr Ymgeisydd yn cynnal ymweliad safle a gweithdy gyda DCfW ym mis Gorffennaf yn rhan o’i ymgysylltiad parhaus. Argymhellodd yr Arolygiaeth y dylai’r Ymgeisydd gynnwys cofnod o ymgysylltiad â DCfW yn ei Adroddiad Ymgynghori yn ogystal â’r dogfennau dylunio, yn enwedig o ran sut mae’r cynllun wedi esblygu wrth ymateb i adborth. Nododd hefyd y gallai DCfW groesawu sesiwn friffio ychwanegol cyn cyflwyno.

## Penderfyniadau penodol/ angen gwaith dilynol?

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Bod yr Ymgeisydd yn cadarnhau pa ddyddiad (bras) y dylid ei ddefnyddio i ddiweddaru tudalen y prosiect ar wefan yr Arolygiaeth [NODYN ÔL-GYFARFOD: WEDI’I GWBLHAU BELLACH].
- Bod yr Arolygiaeth yn ymateb i gwestiynau sy’n weddill a anfonwyd trwy e-bost ynglŷn â’r gwasanaeth cyn-ymgeisio newydd. [NODYN ÔL-GYFARFOD: WEDI’I GWBLHAU BELLACH]
- Bod yr Arolygiaeth yn anfon rhestr wirio gofynion lleoliad a nodiadau cyngor at yr Ymgeisydd. [NODYN ÔL-GYFARFOD: WEDI’I GWBLHAU BELLACH]
- Bod yr Ymgeisydd yn ailanfon y nodyn technegol ar newidiadau Cwmpasu a bod yr Arolygiaeth yn gwneud unrhyw sylwadau os bydd angen [NODYN ÔL-GYFARFOD: WEDI’I GWBLHAU BELLACH].

- Bod yr Ymgeisydd yn cadarnhau pryd y bydd angen y cyfarfod diweddaru nesaf; ym mis Medi ar ôl yr ymgynghoriad statudol, o bosibl.